Penmachno & Dolwyddelan Walks 5/1/08 5:23 PM Page 10

2 Dolwyddelan - Tŷ Mawr

Pellter: 10km / 6.2milltir, tua 3-3.5awr
Graddfa: Egniol, ac ychydig o ddringo serth
Crynodeb: Glan yr afon, rhostir, coedwig a Thŷ Mawr

Y Daith Gerdded

1. O'r orsaf, ewch i'r dde ar hyd y ffordd fach a dal ymlaen pan fydd hi'n troi'n llwybr llydan. Bydd yr afon ar y chwith a'r rheilffordd ar y dde. Ewch drwy'r giât a heibio'r tai ar y dde. Tueddwch i'r dde i groesi o dan y rheilffordd yna tua'r chwith ar y llwybr llydan. Ymlaen, gan fynd heibio gorsaf Pont Y Pant, ymlaen ar hyd y lôn a heibio Gwesty Plas Hall. Wrth y fynedfa i Ganolfan Plas Lledr, ewch ymlaen ar lwybr cul wedyn tueddwch i'r dde a chroesi'r nant ac i'r chwith ar lan yr afon. Bydd y rheilffordd ar eich llaw dde. Dilynwch y llwybr gan gadw'r wal gerrig ar eich llaw chwith a mynd drwy'r giât fetel ac wedyn y giât bren. Ewch i'r chwith a cherdded drwy'r coed y tu uchaf i geunant (gall fod yn gorsiog). Croeswch y gamfa ysgol a mynd ar lwybr yr afon nes cyrraedd Tan-Aeldroch.

2. Ar ôl y tŷ, trowch i'r dde dros y gamfa ysgol, arwyddedig 'Penmachno'. Pan fydd y llwybr yn ymuno â'r ffordd, trowch i'r dde ac ymlaen am tuag 1km, gan ddringo'n serth i ddechrau nes cyrraedd Tŷ Mawr*. Ar ôl Tŷ Mawr, trowch yn ôl ac ewch drwy'r giât gyntaf.

3. Trowch yn siarp i'r chwith i'r llwybr rhwng y waliau cerrig. Ewch drwy'r giât a dal ati ar y llwybr gan dueddu i'r chwith i fyny'r bryn. Croeswch ffordd y goedwig a'r gyffordd gam ac yna ymlaen ar y llwybr naturiol, arwyddedig 'Dolwyddelan'. Daliwch i ddringo'n araf gan gadw'r hen wal gerrig ar eich llaw dde. Croeswch yr ail ffordd goedwig a mynd ymlaen nes cyrraedd camfa ysgol i dir agored.



Tŷ Mawr

Dilynwch y llwybr troellog hwn am 1km dros y rhostir mawnog. Croeswch y gamfa i mewn i'r goedwig a dilyn y llwybr sydd o'ch blaen (gall fod yn wlyb). Wrth yr arwydd, tueddwch i'r dde ac ar i lawr tua giât y cae. Trowch i'r chwith ar hyd y llwybr naturiol sydd ychydig y tu uchaf i'r giât, gan gerdded ar ymyl y goedwig, y wal gerrig ar eich llaw dde. Croeswch y nant a pharhau ar hyd y llwybr. Croeswch yr ail nant fach a dal ymlaen heibio wyneb hen chwarel sydd ar y dde. Cerddwch rhwng y pileri cerrig a mynd ar i lawr ar y llwybr cul, serth - dyma'r hen inclein lle roedd y wagenni'n cario'r lechi i lawr o'r chwarel.

4. Trowch i'r chwith i ffordd y goedwig a chroesi'r giât/camfa. Ewch ymlaen ar hyd y ffordd gan ddisgyn yn raddol. Croeswch y gamfa ysgol/giât a dal i gerdded heibio'r tai ac i mewn i'r pentref. Trowch i'r dde dros y bont ac yna i'r dde ac yn ôl i faes parcio'r orsaf.

* Os hoffech fynd i Benmachno, yna dilynwch y lôn am tua 3km gan ddringo i ddechrau ac yna mynd ar i lawr i mewn i'r pentref.

Yn Nhŷ Mawr y ganed yr Esgob William Morgan, cyfieithydd y Beibl cyfan i'r Gymraeg. Roedd ei gyfieithiad mewn iaith bur, glasurol, a bu ei Feibl yn bwysig dros ben o ran cadw'r iaith Gymraeg yn fyw. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw perchennog Tŷ Mawr. Mae ar agor yn dydd Iau-Sul o Ebrill i Hydref (Ffôn: 01690 760213 i gael mwy o wybodaeth).



Distance: 10km / 6.2miles, allow 3-3.5hrs
Grade: Strenuous with some steep climbs
Summary: Riverside, moor and forest, views and Ty Mawr

The Route

1. From the station, turn right along the minor road and continue ahead as the road gradually turns into a track, walking with the river on left and railway on right. Go through gate and past cottages on right. Bear right to cross under the railway then bear left along the track. Continue ahead, passing Pont Y Pant station and continue ahead along the lane past Plas Hall Hotel. At the entrance to Lledr Hall Outdoor Centre continue ahead on a narrow path then bear right crossing the stream and left along the riverside, now walking with railway on the right.

Follow the path with a stonewall on the left, going through a metal gate and a wooden gate soon after. Turn left and walk through woodland above the river gorge (can be boggy). Cross a ladder stile and continue along the riverside path to Tan-aeldroch farm.

2. After the house turn right over a ladder stile, signed Penmachno. When the path joins the road turn right and continue for about 1km, climbing steeply at first, until you reach Ty Mawr*. From Ty Mawr retrace your steps through the first gate.

3. Turn sharply left onto a path between stonewalls. Go through a gate and continue on the path bearing left up the hillside. Cross a forest track at a staggered junction and continue on the natural path, signed Dolwyddelan. Continue climbing slowly with an old stone wall on the right. Cross a second forest track and continue to eventually cross a ladder stile onto open land. Follow a meandering natural path for 1km across the wet moorland. Cross a stile into the forest and follow the path ahead (can be boggy). Bear right where marked and continue downhill towards a field gate. Turn left along a natural path just above the gate, walking along the forest edge with a stonewall on the right. Cross a stream and continue ahead. Cross a second small stream and continue past an old quarry face on the right. Walk between stone pillars and descend down a steep narrow path. This is the remains of an incline down which the laden slate trucks were moved from the quarry.

4. Turn left onto a forest road and crossing gate/stile. Continue on the road, gradually descending. Cross a ladder stile/ gate and continue past housing into the village. Turn right over the bridge and right back to the station car park.

* To continue to Penmachno follow the lane for about 3km first climbing, then slowly descending into the village.

Ty Mawr was the birthplace of Bishop Morgan, renowned for his translation of the whole bible into Welsh. He wrote in pure classical Welsh and his bible was extremely important in keeping the Welsh language alive. It is owned by the National Trust and open Thursday-Sunday from April - October (tel: 01690 760213 for information).